



Rhys Howard Hughes
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc /
Director of Education, Skills and Young People

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

SWYDDOGOL SENSITIF / OFFICIAL
SENSITIVE

Ffôn / Tel: 01248 752301

Gofynnwch am / Ask for: Meinir Hughes
Ffôn / Tel: 01248 752947
E-bost / E-mail:

Ein Cyf / Our ref:
Eich Cyf / Your Ref:

YMGYNGHORI YNGLŶN Â CHYNNIG I OSTWNG OED MYNEDIADYSGOL LLANDEGFAN AR 31 AWST 2020

Cyfnod ymgynghori rhwng 11 Tachwedd 2019 a 20 Rhagfyr 2019.

Yn dilyn derbyn cais gan Gorff Llywodraethu Ysgol Llandegfan, mae'r Awdurdod yn ymgynghori ar y cynnig i ostwng oed mynediad i dderbyn disgyblion yn rhan amser o'r mis Medi yn dilyn eu pen-blydd yn 3 oed; hyn yn weithredol o 31 Awst 2020.

Mae newid ystod oedran ysgol yn "newidiad a reoleiddir" o fewn trefn ail strwythuro ysgolion ac o fewn gofynion Côt Trefniadaeth Ysgolion, 011/2018. Penderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith yw hyn ac mae angen iddynt gyhoeddi cynigion ar y newid gan ystyried yr ymatebion.

Cyn bwrw ymlaen â'u cynigion mae'r Awdurdod am geisio barn pawb sy'n debygol o fod â buddiant yn y cynnig fel y gellir ystyried eu barn cyn gwneud penderfyniad.

Cynhelir sesiwn galw i mewn i bawb sydd â diddordeb yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y 21 Tachwedd, 2019 rhwng 4:45y.p. a 6:00y.h.

Gellir cael mynediad i'r ddogfen ymgynghori ar wefan Ynys Môn :-

<https://www.ynysmon.gov.uk/cy/Cymryd-rhan/Ymgynghoriadau/Ymgynghoriadau-cyfredol/Dogfen-ymgyng-hori-yngl%C5%B7n-%C3%A2-chynnig-i-ostwng-oed-mynediad-Ysgol-Llandegfan-ar-31-awst-2020.aspx>

Dylid cyflwyno safbwyntiau gan bawb sydd â diddordeb [ffurflen wedi ei hatodi l'r ddogfen ymgynghori] mewn ysgrifen i:

Mrs Meinir Hughes
Swyddog Addysg
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Neu drwy e-bost i MeinirHughes@ynysmon.gov.uk

Rhaid i'r holl sylwadau gyrraedd **dim hwyrach na hanner dydd Dydd Gwener, Rhagfyr 20, 2019.**

Yn gywir,

Meinir Hughes

Swyddog Addysg